Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 16 Rhagfyr 2013 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Rosie Hughes-Moseley (**Maer – Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Sioned Foulkes, Ken Hawkins, Robert Owen Ellis, Anne Roberts, Katy Morgan Williams ac Emrys Wynne; hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

151. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Menna Jones, Simeon Jones a Geraint Woolford.

152. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd Cyng. June Derry, oherwydd y cysylltiad teuluol, ddiddordeb yn y canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd ar yr eitem yma.
Cof. Rhif 163(1) Cynllun Gwella Blaen Siop – J. & C. Collister.

153. YR HEDDLU

Cynrychiolwyd Yr Heddlu gan Swyddogion CC Lee Humphries a Mandy McLoughlin a roddodd adroddiad i'r aelodau dros y 12 mis diwethaf. Yn gyffredinol, yr oedd 174 dioddefwyr troseddi gan gynnwys 27 troseddi amgylcheddol gwrthgymdeithasol. Cyfeiriwyd at y system CCTV ar Heol y Parc sydd yn cael ei ddefnyddio i fonitro elfennau gwrthgymdeithasol - codwyd cyfanswm o 64 ASBO's, yn bennaf oherwydd digwyddiadau yn y lleoliad yma. Codwyd cyfanswm o 18 ASBO's personol ers y 1af Ionawr. Bydd Y Rhingyll Phil Richards yn dechrau ar ei swydd newydd yn Rhuthun a bydd mwy o bresenoldeb yr Heddlu ar y strydoedd. Derbyniwyd cwestiynau gan yr aelodau gan gynnwys fandaliaeth ceir dros wyliau'r haf a manylion system symudiad Yr Heddlu. Diolchwyd iddynt gan y Maer.

154. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:
I'w gwblhau.

155. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod safle parthed Coeden Dderw yng Nghae Ddôl.
Cyng. James Bryan	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon
Cyng. Bob Costain	Goleuadau'r Nadolig
Cyng. Elisabeth Culshaw	Pwyllgor Rheolaeth Canolfan Awelon
Cyng. Sioned Foulkes	Ffrindiau Cae Ddôl, Sul Coffa
Cyng. Ken Hawkins	Marchnad Nadolig a Goleuadau'r Nadolig, Canolfan Awelon – Parti Nadolig.
Cyng. Robert Owen Ellis	Cyfarfod safle parthed Coeden Dderw yng Nghae Ddôl, Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras x 3, Goleuadau Nadolig, Banc Bwyd x 2, Cyfarfod yn Llanelwy par Llifogydd x 2
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod safle parthed Coeden Dderw yng Nghae Ddôl, Digwyddiad Nadolig Glasdir, Ymlaen Rhuthun
Cyng. Katy Morgan Williams	Digwyddiad Nadolig Glasdir, Goleuadau Nadolig, Cymdeithas Preswylwyr Glasdir.
Cyng. Emrys Wynne	Digwyddiad Nadolig Glasdir, Gorymdaith Lanterni, Theatr John Ambrose x 2, Cyfarfod yn Llanelwy par Llifogydd

156. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2013.*

157. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw fater yn codi.

158. PWYLLGOR AMWYNDERAU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

159. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2013.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

160. IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL
(a) ***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor yma a gynhaliwyd Nos Lun, 3 Rhagfyr 2013.*
(b) Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr gan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn gofyn am Gyfraniad Ariannol tuag at yr Eisteddfod eleni
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £100.00.*

161. DINESYDD DA
Gofynnwyd i'r aelodau drafod y mater yma.
***PENDERFYNWYD**: bod cyfarfod yn cael ei gynnal yn dilyn y cyfarfodydd Pwyllgorau nesaf. Aelodaeth - Cyngr. Menna Jones ac Anne Roberts ynghyd a'r Maer a'r Dirprwy Faer.*

162. SUL COFFA – LLENG BRYDEINIG FRENHINOL
Gofynnwyd i'r aelodau drafod y mater yma, Awgrymodd aelod fod y gwaith a wneid gan y ddau ŵr blaenllaw yn cael ei adnabod a'u bod yn cael eu gwobrwyo am eu hymdrechion.
***PENDERFYNWYD**: gwneud cyflwyniad yng nghyfarfod o'r Cyngor Tref yn y Flwyddyn Newydd.*

163. CYNLLUN GWELLA BLAEN SIOP
Derbyniodd yr aelodau fanylion a gofynnwyd iddynt gymeradwyo'r ceisiadau canlynol dderbyniwyd o dan y cynllun uchod:
(1) J. & C. Collister parthed Vanity Fayre, Sgwar Sant Pedr.
Derbyniwyd Ffurflen Gais wedi ei llenwi ynghyd a dau amcan bris ysgrifenedig a saith llun, Ar sail yr amcan bris isaf, byddai Grant o £1,000 yn daladwy.
(2) Ray Cronin parthed Celtic Hair Studio, 2 Stryd y Ffynnon
Derbyniwyd Ffurflen Gais wedi ei llenwi ynghyd a dau amcan bris ysgrifenedig a phedwar llun. Ar sail yr amcan bris isaf ac eithrio T.A.W. ar y Cherry Picker byddai Grant o £810.00 yn daladwy.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau a chymeradwyo'r ceisiadau uchod.*

164. GWEFAN Y DREF
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Dîm y Dref os yw'r cynnig o £1,000.00 tuag at ddatblygu gwefan yn dal i fod mewn grym.
***PENDERFYNWYD**: hysbysu Tîm y Dref bod y cynnig o £1,000 wedi ei wneud ar sâl yr hen amcan bris a bod y cynnig yn awr wedi darfod.*

165. MARCHNAD GYNNYRCH RHUTHUN
Gofynnwyd i'r aelodau drafod y cyfraniad o £500.00 sydd yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad uchod, sydd yn awr wedi darfod.
***PENDERFYNWYD**: i gynnwys y £500.00 mewn Datganiad Ariannol y dyfodol fel eitem cyllid o dan 'Marchnad Ganoloesol Rhuthun'. Ni fydd y cyllid ar gyfer eleni yn cael ei hawlio.*

166. CYDLYNYDD TREF RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan Gyngor Sir Ddinbych parthed ariannu ar gyfer swydd cydlynydd rhan amser. Bydd rhagor o fanylion ar gael erbyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref pan gaiff y mater ei drafod yn llawn - yn y cyfamser, bydd swm nominal o £5,000 yn cael ei gynnwys yn yr Amcangyfrifon Ariannol.

167. CWMNI ANRHYDEDDUS O WARCHODWYR DWR

Derbyniodd yr aelodau sicrwydd yswiriant ysgrifenedig ar gyfer Crair y Dref yn dilyn cyflwyniad y mis diwethaf.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chadarnhau'r sicrwydd yswiriant ar gyfer Crair y Dref.*

168. DATGANIAD ARIANNOL

(a) Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30ain Tachwedd 2013.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

(b) Hysbyswyd yr aelodau bydd y swm o £4,000.00 gynt yn y cyllid ar gyfer Nantclwyd y Dre yn cael ei ddangos ar Ddatganiadau Ariannol yn y dyfodol - byddai hyn yn cael yr effaith o leihau'r Gronfa Gyffredinol i £24,869 gyda'r cyfanswm Wrth Gefn yn parhau ar ffigwr o £90,065.

169. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

497	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
498	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		177.47
499	Fineline Printing & Stationery	2 Ream Papur 100grm	*	14.16
500	Fineline Printing & Stationery	Cardiau Nadolig	*	111.40
561	Eisteddfod Llangollen	Cyfraniad		100.00
501	Cyngor yr Henoed - Clwb Cinio	Cyfraniad		100.00
502	Clwb Criced Rhuthun	Cyfraniad		450.00
503	Band Tref Rhuthun	Cyfraniad		100.00
504	Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych	Cyfraniad		100.00
505	Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod 2014	Cyfraniad		100.00
506	Ambiwlans Awyr Cymru	Cyfraniad		200.00

Cymerwyd Siec Rhif. 561 o Lyfr Siec newydd mewn camgymeriad.

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £35.93)

170. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 27 Ionawr 2014.